

CRONFA
LOTERI
FAWR
BIG
LOTTERY
FUND

Cynllun Corfforaethol 2010/11



Cynllun Corfforaethol 2010/11

Ffotograffydd: Alan Fletcher

Copiâu pellach ar gael gan:

Ffôn: 01686 611 700

Ffôn testun: 0845 6 02 16 59

E-bost: [ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk](mailto:yholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk)

Ein gwefan: www.cronfaloterifawr.org.uk

Hygyrchedd

Cysylltwch â ni i drafod unrhyw anghenion cyfathrebu penodol sydd gennych.

Ein hegwyddorion cydraddoldeb

Hyrwyddo hygyrchedd; gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol; hyrwyddo cymryd rhan; hyrwyddo cyfleoedd cyfartal; hyrwyddo cymunedau cynhwysol; lleihau anfantais ac eithrio.

Ewch i'n gwefan am ragor o wybodaeth.

Rydym yn gofalu am yr amgylchedd

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru yn ceisio lleihau ei heffaith negyddol ac yn defnyddio adnoddau cynaliadwy priodol yn unig.

Ein gweledigaeth

Rydym wedi'n hymrwymo i ddod â gwir welliannau i gymunedau ac i fywydau'r bobl fwyaf anghenus.

Ein gwerthoedd

Rydym wedi adnabod saith gwerth sy'n sail i'n holl waith: tegwch; mynediad hawdd; ffocws strategol; cynnwys pobl; arloesedd; galluogi; ychwanegol at y llywodraeth.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ymrwymedig i werthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cyfle cyfartal, a hynny fel dosbarthwr grantiau a chyflogwr. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn anelu at fabwysiadu ymdriniaeth gynhwysol tuag at sicrhau bod ymgeiswyr a derbynyddion grantiau, budd-ddeiliaid, ymgeiswyr am swyddi a gweithwyr yn cael eu trin yn deg.

© Cronfa Loteri Fawr, Medi 2010



Yn dyfarnu arian

Y Loteri Genedlaethol

Awarding funds from

The National Lottery®

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Amdanom ni	5
Ynglŷn â'r cynllun hwn	6
Amcanion strategol a dangosyddion perfformiad allweddol 2010/11	7
Risgiau	16
Atodiad A Siart o'r drefniadaeth	17
Atodiad B Aelodau Bwrdd a phwyllgorau	18

Cyflwyniad gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Ym mis Mehefin 2009 cyhoeddodd y Gronfa Loteri Fawr ei Fframwaith Strategol, y Farn Fawr, a ddisgrifiodd yr hyn y gallech ei ddisgwyl gennym ni fel ariannwr dros y cyfnod hyd at 2015. Mae ein Cynllun Corfforaethol yn pennu ein cyllideb a'r amcanion a thargedau ar gyfer cyflwyno'r weledigaeth honno, ynghyd â'n cenhadaeth gyffredinol ar gyfer dod â gwir welliannau i gymunedau a bywydau'r bobl fwyaf anghenus.

Bydd hon yn flwyddyn bwysig i'r Gronfa Loteri Fawr wrth i ni barhau i gyflwyno ar sail yr addewidion a amlinellwyd yn y Farn Fawr yng nghyd-destun pwysau enfawr ar wariant cyhoeddus a chymau cychwynol diwygiad y llywodraeth newydd o'r Loteri Genedlaethol. Cydnabyddwn yn fwy nag erioed o'r blaen y bydd angen i ni fod yn hyblyg, yn ymatebol ac â ffocws er mwyn i ni ymaddasu i'r sefyllfa a wynebwn a chyflwyno'n effeithiol. Byddwn yn parhau i reoli ein costau gweithredu er mwyn cynnig gwerth am arian. Fe'n canmolwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar gyfer ein gwaith allgymorth cost-effeithiol ac uchel ei ansawdd.

Oherwydd ein cyflawniadau, ein pobl a'r perthnasoedd cryf a fwynhawn gyda phartneriaid a chwsmeriaid, rydym mewn sefyllfa dda i wynebu'r dyfodol. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â hwy i wella'r ffordd a wnawn bethau, a byddwn yn rhannu ein hymchwil a'n dysg a'r gwerthusiadau o'r hyn a ariannwn. Yn gynyddol cipiwn ddysg werthfawr gan y bobl sy'n elwa o'r prosiectau a ariannwn.

Dengys ein cynllun sut bydd y Gronfa Loteri Fawr yn cyflawni'i diben eleni o wneud gwahaniaeth cadarnhaol a chynaliadwy i gymunedau lleol. Mae gennym werth £390 miliwn o gyllideb grant gytunedig i'w dosbarthu eleni a byddwn yn ei buddsoddi drwy welliannau i raglenni presennol yn ogystal â dechrau darparu cymysgedd o raglenni ar draws pedair gwlad y DU.

Peter Wanless
Prif Weithredwr

Syr Clive Booth
Cadeirydd

Amdanom ni

Y Gronfa Loteri Fawr yw'r mwyaf o'r dosbarthwyr Loteri. Ein cenhadaeth yw dod â gwir welliannau i gymunedau a bywydau'r bobl fwyaf anghenus. Rydym yn gyfrifol am ddsbarthu hanner yr arian a godir ar gyfer achosion da gan y Loteri Genedlaethol. Fe'n sefydlwyd ym mis Mehefin 2004 wrth i ddau gorff dosbarthu'r Loteri, y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol, gyfuno'n weinyddol. Fe'n sefydlwyd yn llawn fel endid cyfreithiol ar 1 Rhagfyr 2006 wrth i adrannau perthnasol Deddf y Loteri Genedlaethol 2006 ddod i rym. Ar y dyddiad hwn hefyd, gwnaethom etifeddu cyfrifoldebau Comisiwn y Mileniwm.

Llywodraethu Corfforaethol

Fel corff cyhoeddus anadrannol, mae'r Gronfa Loteri Fawr yn atebol i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a'i Phrif Swyddog Cyfrifon. Gall fod yn ofynnol i ni roi tystiolaeth i bwyllgorau seneddol a'r gweinyddiaethau datganoledig.

Darperir ein fframwaith llywodraethu gan DCMS mewn ymgynghoriad â'r gweinyddiaethau datganoledig. Mae'n cynnwys:

- Cyfarwyddiadau Polisi, sy'n nodi'r materion y dylem eu hystyried wrth benderfynu sut i wario arian y Loteri;
- Cyfarwyddiadau Ariannol a'r Datganiad o Ofynion Ariannol, sy'n amlinellu sut y dylem reoli arian y Loteri; a
- Chyfarwyddiadau Cyfrifon, sy'n nodi sut rydym yn atebol am ddefnyddio arian y Loteri.

Mae'r Datganiad Rheoli'n diffinio'r berthynas rhwng y Gronfa Loteri Fawr a DCMS fel y llunir gan gytundeb ar y cyd, ac yn nodi fframwaith bras ein dull gweithredu. Rydym hefyd yn ystyried canllawiau a gyhoeddir gan y Trysorlys a DCMS. Caiff yr holl gyfarwyddiadau hyn eu rhoi ar waith drwy ein polisiau a'n gweithdrefnau mewnol.

Mae gennym bwerau ariannu helaeth sy'n ein galluogi i wneud dyfarniadau (neu fenthyciadau) i sawl math gwahanol o sefydliad yn y sectorau elusennol,

gwirfoddol a chymunedol, cyhoeddus a phreifat. Gallwn ddsbarthu arian nad yw'n arian y Loteri ar ran sefydliadau eraill hefyd.

Trefniadaeth

Y Prif Weithredwr, Peter Wanless, yw Pennaeth y Gronfa Loteri Fawr. Fe yw'r Swyddog Cyfrifon, ac mae'n cadeirio'r Uwch Dîm Rheoli, sy'n cadw trosolwg o weithrediadau'r sefydliad o ddydd i ddydd ac yn sicrhau bod penderfyniadau'r Bwrdd yn cael eu rhoi ar waith. Mae'r Uwch Dîm Rheoli'n ystyried polisiau a materion strategol a gweithredol allweddol cyn unrhyw newidiadau a allai gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd. Mae hefyd yn gyfrifol am nodi a rheoli risgiau corfforaethol. Mae gan y sefydliad swyddfeydd yng Nghymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r cyfarwyddwyr sy'n aelodau o'r UDRh, ynghyd â'u cyfrifoldebau ar gyfer 2010/11, wedi'u dangos mewn siart o'r drefniadaeth yn atodiad A.

Llywodraethu mewnol

Mae Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr yn sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â deddfwriaeth ac unrhyw Gyfarwyddiadau, yn cymeradwyo strategaethau a pholisiau cyffredinol ac yn cytuno ar y gyllideb weithredu a'r cyllidebau ar gyfer rhaglenni ariannu, ac mae hefyd yn eu goruchwylio. Mae'r Bwrdd yn penderfynu ac yn goruchwylio ar lefel strategol sut y caiff ein holl raglenni dyfarnu grantiau eu rhedeg. Mae'n gyfrifol am oruchwylio gweinyddiaeth y sefydliad, gan gynnwys penodi'r Prif Weithredwr. Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd, pedwar aelod sy'n cadeirio'r pedwar Pwyllgor Gwlad a saith aelod cyffredinol. Maent i gyd yn swyddi anweithredol a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Bwrdd wedi penderfynu penodi Is-gadeirydd, sef un o aelodau cyffredinol y Bwrdd ar hyn o bryd. Mae pwerau'r Bwrdd wedi'u dirprwyo fel y bo'n briodol i nifer o bwyllgorau, y mae pob un ohonynt wedi'u cadeirio gan aelod o'r Bwrdd fel y disgrifir isod.

Darperir ar gyfer pwyllgorau gwlad Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon yn y ddeddfwriaeth. Maent

Ynglŷn â'r cynllun hwn

yn gyfrifol am raglenni ariannu a pholisïau cysylltiedig yn ogystal â phenderfyniadau am ddyfarniadau o fewn y fframwaith polisi cyffredin y cytunwyd arno gan Fwrdd y DU yn y pedair gwlad. Penodir aelodau gan y Bwrdd yn amodol ar ganiatâd Gweinidogion y Gweinyddiaethau Datganoledig neu'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn Lloegr.

Mae'r Bwrdd hefyd yn sefydlu Pwyllgorau ymysg ei aelodaeth fel y bo angen ar gyfer rhaglenni grant sy'n gweithredu ar lefel y DU.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau'n cymeradwyo'r rhaglen archwilio fewnol, yn cadarnhau'r gofrestr risgiau ac yn craffu canlyniad adroddiadau archwilio mewnol ac allanol.

Mae'r Pwyllgor Adnoddau'n ystyried y gyllideb flynyddol, yn goruchwyllo gwariant ac yn monitro'r cyflenwad staffio a'i strwythur, amodau a thâl staff ac agweddau eraill ar reoli adnoddau dynol.

Mae'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yn cwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn i ystyried perfformiad a thâl cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr.

Mae'n rhaid i'r holl Aelodau Bwrdd a Phwyllgor ddatgan unrhyw fuddiannau perthnasol o dan ein Côd Ymddygiad. Gwneir y datganiadau yn ysgrifenedig ac fe'u delir ar ffeil gan Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd. Gall y cyhoedd eu harchwilio drwy ysgrifennu at y Prif Weithredwr. Cyhoeddir datganiadau aelodau'r bwrdd ar wefan y Gronfa Loteri Fawr hefyd.

Gallwch weld rhestr o aelodau'r Bwrdd a'r pwyllgorau gwlad yn Atodiad B.

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu ein blaenoriaethau a'n targedau ar gyfer 2010/11, sef ail flwyddyn ein fframwaith strategol newydd, y Farn Fawr. Mae'r fframwaith strategol yn pennu ein cynnydd rhwng 2009 a 2015, a dylid ei ddarllen ar y cyd gyda'r cynllun blynyddol hwn gan ei fod yn llunio ac yn dylanwadu ar y trefniadau ariannu a'r gweithgareddau a ddisgrifir yma. Gallwch lawrlwytho copi o fframwaith strategol y Farn Fawr o'n gwefan yn www.cronfaloterifawr.org.uk

Amcanion strategol ar gyfer 2010/11

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi datblygu tri amcan strategol ar gyfer 2010/11 i gyfeirio ein cynlluniau busnes. Dyma'r amcanion:

Amcan strategol 1: Effeithlonrwydd

Rydym yn rheoli arian cyhoeddus yn effeithlon.

Amcan strategol 2: Ffocws ar gwsmeriaid

Dywedodd y rhai sydd wedi ymholi am ein hariannu, ymgeisio amdano neu ei dderbyn ein bod wedi darparu gwasanaeth ardderchog iddynt. Mae gennym berthnasoedd cryf a chadarnhaol gyda budd-ddeiliaid allweddol a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Amcan strategol 3: Effeithiolrwydd

Mae ein rhaglenni ariannu'n dod â gwir welliannau i fywydau ein buddiolwyr.

O dan bob amcan strategol rydym wedi nodi'r blaenoriaethau cyflwyno ar gyfer 2010/11 ynghyd â set o fesurau perfformiad. Crynhoir y rhain ar y tudalennau canlynol.

Amcan strategol 1: Effeithlonrwydd

Rydym yn rheoli arian cyhoeddus yn effeithlon.

Dangosyddion perfformiad allweddol:

- **Trwy ddyfarnu grantiau, rydym yn ymrwymo 100 y cant o'n cyllideb grantiau ar gyfer y flwyddyn.**
- **Costau gweithredu fel canran o incwm.**

Cyllidebau grant

Ein polisi yw gwneud cynifer o ddyfarniadau grant ag y gallwn heb gymryd gormod o risgiau mewn hinsawdd economaidd ansicr a allai olygu na fydd gennym yr arian i fodloni'r ymrwymadau hynny.

Wrth ymateb i'r hyn y mae'r sector gwirfoddol wedi gofyn amdano gennym, rydym bellach yn dyfarnu grantiau am gyfnodau hwy. Mae grantiau sy'n para am bum mlynedd yn gyffredin erbyn hyn. Ac wrth gwrs rydym yn ariannu gwaith cyfalaf sy'n cymryd nifer o flynyddoedd i'w adeiladu. Mae'r ffaith y bydd llawer o'n grantiau'n cael eu talu allan nifer o flynyddoedd ar ôl ymrwymo iddynt yn golygu y gallwn wneud ymrwymadau ar sail arian nad ydym wedi'i dderbyn eto. Ar 1 Ebrill 2010, roedd gennym £1,122 miliwn o ymrwymadau sy'n ddyledus, ond £474 miliwn yn unig yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol i'w talu. Bydd balans y taliadau'n cael ei thalu gydag incwm y dyfodol.

Ond mae ein hincwm yn y dyfodol yn ansicr fodd bynnag gan nad oes unrhyw un yn gwybod faint o incwm a fydd gan y Loteri. Gan hynny mae'n rhaid i'r Gronfa Loteri Fawr fod yn ochelgar. Mae DCMS yn cynhyrchu rhagamcaniadau o incwm y dyfodol sy'n seiliedig ar y dybiaeth y bydd gwerthiannau tocynnau'r Loteri aros yn fras ar eu lefel bresennol yn y dyfodol – yr 'achos canolog' yw'r enw rydym yn ei roi i hyn, ac rydym yn ei ddefnyddio ar gyfer cynllunio gwariant tebygol yn y dyfodol dros yr hir dymor. Ond ni allwn wneud ymrwymadau grant ar y sail hon – os gwnaethom hynny ac os cafwyd gostyngiad yn incwm y Loteri, mae'n bosib na fyddai modd i ni fodloni ein holl ymrwymadau. Felly rydym yn cynhyrchu rhagamcaniad mwy gochelgar o'r enw 'achos 5 y cant' gan ein bod yn amcangyfrif bod cyfle 5 y cant y byddai'n digwydd mewn gwirionedd. Rydym yn pennu cyllidebau grant sy'n golygu na fyddai gennym unrhyw falans mewn perthynas â'r achos 5 y cant ar y pwynt isaf yn y dyfodol. Mae blaengynllunio nifer o flynyddoedd ymlaen llaw yn caniatáu i ni wneud unrhyw newidiadau i'n rhaglenni gyda chyn lleied o aflonyddwch â phosib

os bydd ein rhagolygon yn dangos efallai na fyddwn yn bodloni unrhyw ymrwymadau yn y dyfodol, ond mae hyn yn annhebygol.

Ym mis Mai 2010 cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon ei fwriad i ymgynghori ar gynigion i newid cyfran incwm y Gronfa Loteri Fawr. Yn amodol ar ymgynghori a chymeradwyaeth gan senedd y DU bydd y cynnig yn gostwng ein cyfran incwm gan y Loteri Genedlaethol i 46 y cant o 1 Ebrill 2011 a 40 y cant o 1 Ebrill 2012. Bydd y gostyngiad potensial hwn mewn incwm yn golygu y bydd rhaid i ni adolygu ein cynlluniau presennol ac ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, er ein bod wedi'n gorymrwymo'n sylweddol ar hyn o bryd, bydd modd i ni fodloni ein holl ymrwymadau presennol cyhyd â bod gwerthiannau tocynnau Loteri'n parhau ar lefel y rhagamcaniadau.

Yn y Farn Fawr, nodwyd yr ariannu disgwylidig sydd ar gael i'w ddsbarthu rhwng 2009 a 2015, gan ystyried lefel gwerthiannau tocynnau Loteri yr adeg honno a'r dybiaeth y bydd ein canran ariannu gan y Loteri Genedlaethol yn parhau ar yr un lefel. Seiliwyd y cyllidebau dangosol a gyhoeddwyd yr adeg honno ar ein barn ynglŷn â chydbwysu'r gofyniad am fwyafu dyfarniadau grant gyda'r dymuniad i ddarparu cyllidebau grant blynyddol cymharol sefydlog yn ystod rhan gynnar y cynllun hwn. Os bydd incwm yn newid yn ôl disgwyliadau, bydd angen i ni adolygu fforddadwyedd y cyllidebau dangosol hyn.

Ar sail cyngor y pedwar pwyllgor gwlad, mae'r Bwrdd wedi cwblhau ei adolygiad o gyllideb 2010/11. Cymeradwyodd cyllidebau grant ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2011 ar gyfer yr holl raglenni ariannu newydd a phresennol, ac mae'r rhain wedi'u dangos yn y tabl isod (mae'r holl ffigurau'n symiau 'hyd at'). Mae rhai cyllidebau ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Pan gaiff y rhain eu cymeradwyo gan y Bwrdd byddwn yn eu cyhoeddi drwy ein gwefan. Mae'r Bwrdd hefyd yn parhau â'i ymrwymiad i anrhydeddu'r addewid a wnaeth yn y Farn Fawr, sef y dylai'r sector gwirfoddol a chymunedol (SGCh) ar draws y DU yn gyffredinol dderbyn o leiaf 80 y cant o'n harian rhwng nawr a 2015.

Amcanion strategol ar gyfer 2010/11

**Cyllideb
2010/11
£m**

DU gyfan

Partneriaeth a chynnwys y cyhoedd

Arwyr yn Ôl 2 4.80

Miliynau'r Bobl (rownd 6) 3.80

Byd o Natur 2.00

The BIG Lunch 0.32

Grantiau Ychwanegol Pentref SOS 2.00

Ymgyrch ddysgu Pentref SOS 1.00

Cymunedau Rhyngwladol 1.25

Efelychu ac Arloesedd

Bond Effaith Gymdeithasol 0.80

Cyllideb heb ei dyrannu (Rhaglenni sy'n cael eu datblygu) 3.00

Cyfanswm 18.97

Lloegr

Reaching Communities 10/11 125.45

Reaching Communities 10/11 (Cyfalaf) 0.15

Capital Support (contract) 1.75

Forces in Mind 0.2

Financial Capability Social Housing 4.00

Rhaglen Leol y Gronfa Loteri Fawr 1.6

Datblygu cynaliadwy 4.00

BASIS 2.50

Changing Spaces 3.75

Parks for People 0.87

Advice 1.50

Arian i Bawb 45.00

Cyfanswm 190.77

Yr Alban

Arian i Bawb 10.70

2014 Communities 1.00

Investing in Ideas 1.00

Investing in Communities 14.00

Cronfa Jessica 10.00

Cronfa Fuddsoddi 50.00

Future Interventions 4.00

Adran 43 0.70

Growing Community Assets 8.40

Venture Fund 1.95

Amcanion strategol ar gyfer 2010/11

	Cyllideb 2010/11 £m
Yr Alban, parhad...	
Cronfa Pobl Ifanc	0.02
Trefniad Our Place	0.45
Our Place	0.55
Contract cefnogi gwirfoddolwyr	0.50
Cyfanswm	103.27
Cymru	
Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT)	2.00
Arian i Bawb	2.90
Pawb a'i Le	23.15
Sgiliau Bywyd	3.80
Llawn BYWYD	20.00
Chwarae Plant	2.00
Cronfa'r Dyfodol	0.95
Cyfanswm	54.80
Gogledd Iwerddon	
Arian i Bawb	3.50
Reaching Communities	2.61
Cross Border	0.30
Headroom	0.50
Young People at Risk	5.00
Peilot Community Planning	0.57
Older People at Risk	5.00
Gwasanaethau Cynghori	0.80
Contract gwaelodlin Live and Learn a Safe and Well	0.09
Energy Efficient Venues	1.73
Cyllideb heb ei dyrannu (Rhaglenni sy'n cael eu datblygu)	1.90
Cyfanswm	22.00
cyfanswm	384.91
Cyfanswm cyllideb heb ei dyrannu	4.9
cyfanswm	389.81

Sylwer bod yr holl ffigurau a nodir yn y tabl hwn yn symiau 'hyd at'.

Amcanion strategol ar gyfer 2010/11

Cyllideb Costau Gweithredu

Ym mis Mawrth 2010, cymeradwyodd Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr gyllideb costau gweithredu, ac eithrio costau'r rhaglen ailbeiriannu prosesau busnes (BPR), fel a ganlyn:

Ffigurau'n eithrio costau BPR	Cyllideb 2010/11	Rhagamcaniad o gynnyrch 2009/10	Cyllideb 2010/11 wedi'i mynegi fel % o incwm Loteri disgwyliedig
Gwariant cyfarwyddiaethau	57.80		7.8
Swm Wrth Gefn Rhaglenni	2.55		
Cyfanswm	60.35	60.35	8.2

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ceisio rheoli ei chostau'n dynn. Yn y flwyddyn ariannol 2009/10, roedd ein costau gweithredu'n 7.4 y cant o'r incwm a dderbyniwyd, i lawr o 8.6 y cant yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Yn rhannol mae cynnyrch 2009/10 oherwydd ad-daliadau 'annisgwyl' a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn honno. Yn gyffredinol rydym yn ceisio cadw costau dosbarthu'r Loteri'n is nag 8.5 y cant o'n hincwm gan y Loteri dros y tymor hwy. Mae costau'n amrywio dros gyloch rhaglenni ac felly, o flwyddyn i flwyddyn. Mae incwm Loteri hefyd yn amrywio y tu hwnt i'n rheolaeth, felly mae'n anochel y bydd y ganran yn codi ac yn gostwng dros y tymor byr.

Er nad ydym eisiau biwrocratiaeth ddiangen, mae angen i ni sicrhau ein bod yn ariannu'n hygyrch ac yn deg, yn rheoli'r risg o geisiadau twyllodrus, yn darparu gwasanaeth da i gwsmeriaid a, phwysicaf oll, sicrhau bod ein rhaglenni'n cyflawni eu canlyniadau arfaethedig. Ar ben hynny mae rhannau sylweddol o'n costau gweithredu'n fwy na 'gweinyddu' yn unig - dylunio rhaglenni rhagorol a hygyrch, cefnogi ymgeiswyr am grantiau a deiliaid grantiau yn eu gwaith drwy allgymorth. Mae darparu deunyddiau ymgeisio a ddylunnir yn dda sy'n hawdd i gwsmeriaid eu defnyddio, a chynnal ymchwil a gwerthuso'n hollbwysig o ran cyflawni ein canlyniadau. Felly nid ydym yn ceisio lleiafu'r costau hyn; yn hytrach rydym am sicrhau eu bod yn cynnig gwerth am arian.

Mae'r rhaglenni rydym yn dyfarnu nifer mawr o grantiau bach drwyddynt yn ddrutach i ni eu rhedeg na'r rhaglenni sy'n canolbwyntio ar un sector ac yn dyfarnu nifer bach o grantiau mawr. Mae'r math o raglen rydym yn ei hadeiladu

wedi'i hysgogi gan yr hyn sy'n cyflwyno'r canlyniadau dymunol orau, nid cost y cyflwyniad.

Rydym wedi cynllunio ar gyfer cyllideb costau gweithredu nad yw'n uwch o safbwynt arian parod na'r llynedd. Yn ystod 2010/11, disgwyliwn lansio cyfres o raglenni newydd. Nid ydym yn gwybod yn llawn eto beth fydd cost y rhain; gan hynny, mae pennu cyllidebau costau gweithredu cadarn ar gyfer cyflawni targedau effeithlonrwydd wedi profi'n heriol. Rydym hefyd yn parhau i gymathu cynnydd mewn tâl a ffurfiau eraill ar chwyddiant.

Nid yw cyllideb costau gweithredu 2010/11 a nodir uchod yn cynnwys y gyllideb ar gyfer buddsoddi i wella ein systemau a'n prosesau rheoli grantiau (sef y prosiect BPR). Rydym yn disgwyl y bydd y buddsoddiad hwn yn creu gwell effeithlonrwydd a gwelliannau gwasanaeth cwsmeriaid o ran olaf 2010/11 ymlaen drwy gefnogi'r amrywiaeth o ffyrdd y byddwn yn dyfarnu arian yn y dyfodol. Er bod canran sylweddol o hyn yn fuddsoddiad i'w osod yn erbyn arbedion yn y dyfodol, bydd rhai costau refeniw unigol yn y cyfnod hwn ar gyfer rhoi'r system newydd ar waith, trosglwyddo data a hyfforddi staff.

Byddwn yn mesur ein llwyddiant yn erbyn yr amcan hwn drwy fonitro gwariant cyllideb yn erbyn y targed yn barhaus.

Targed blynyddol:
mae costau gweithredu'n llai na 8.5 y cant o incwm y Loteri.

Targed blynyddol:
mae 100 o'r gyllideb grant gytunedig wedi'i hymrwymo.

Amcan strategol 2: Ffocws ar gwsmeriaid

Dywedodd y rhai sydd wedi ymholi am ein hariannu, ymgeisio amdano neu ei dderbyn ein bod wedi darparu gwasanaeth ardderchog iddynt. Mae gennym berthnasoedd cryf a chadarnhaol gyda budd-ddeiliaid allweddol a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Dangosydd perfformiad allweddol:

Bodddhad cwsmeriaid, wedi'i fesur drwy arolygon rheolaidd.

Bob blwyddyn darparwn gyngor i filoedd o ymholwyr, ymgeiswyr a deiliaid grantiau. Bydd y gefnogaeth hon yn dod o'n gweithwyr ein hunain a hefyd staff yr asiantaethau cefnogi sy'n gweithio gyda ni.

Yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2010 cysylltodd ein staff ledled y DU â mwy na 100,000 o bobl a ymholodd am grant gan y Gronfa Loteri Fawr. Ymatebodd staff yn ein canolfannau gweithredu i fwy na 4,000 o gynigion amlinellol a bron 29,000 o geisiadau am grantiau, a chefnogwyd mwy na 26,000 o sefydliadau sy'n derbyn grant gan y Gronfa Loteri Fawr.

Bydd ein Strategaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid newydd ar gyfer 2010-2015 yn sicrhau ein bod yn cyflwyno gwasanaethau uchel eu hansawdd yn gyson. O ganlyniad i ymgynghori a chyfres o arolygon cwsmeriaid, ynghyd â phrofi ein hunain yn erbyn safonau rhagoriaeth gwasanaeth cwsmeriaid y llywodraeth, mae gennym sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer cyfiawnhau pedair blaenoriaeth yn ystod y flwyddyn i ddod:

- ▶ Byddwn yn datblygu fframwaith mewnwelediad i sicrhau bod ein holl weithgareddau cyfathrebu'n cael eu dylunio gyda mewnwelediad i safbwyntiau a phrofiadau cwsmeriaid. Caiff rhwydwaith allanol ei greu a byddwn yn hyrwyddo'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol er mwyn i'n hymgeiswyr a deiliaid grantiau rannu gwybodaeth, cysylltiadau a chynghor.
- ▶ Byddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid (a budd-ddeiliaid eraill) sut maent wedi cyfrannu at ein dysgu drwy gyhoeddi canfyddiadau ac ymatebion pennawd fel y bo'n briodol.
- ▶ Byddwn yn sicrhau bod ein polisiau gweithle'n

annog agwedd ac ymddygiad sy'n rhoi cwsmeriaid yn gyntaf. Bydd yr holl hyfforddiant i staff yn cael ei gryfhau a bydd dau gwrs mewnol newydd yn cael eu datblygu er mwyn i reolwyr a staff cefnogi ddatblygu eu dealltwriaeth o ragoriaeth gwasanaeth cwsmeriaid, yn seiliedig ar Chwe Safon y Gronfa Loteri Fawr.

- ▶ Bydd ein holl raglenni'n defnyddio egwyddorion ariannu deallus y Farn Fawr. Byddwn yn peilota ffyrdd newydd o weithio, gan gynnwys ceisio cynghor arbenigol ar rwyddineb defnyddio ein deunyddiau a phrosesau ymgeisio, a chynnal treial o ffurflenni ar-lein gyda mecanweithiau adborth wedi'u hymgorffori.

Byddwn yn mesur ein llwyddiant yn erbyn yr amcan strategol hwn drwy gynnal arolygon bodddhad cwsmeriaid yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn ar draws y DU, gan gymharu'r canlyniadau gyda blynyddoedd dilynol ar ôl i'n systemau newydd gael eu rhoi ar waith. Ar gyfer yr arolwg hwn mae ein samplau wedi'u tynnu o'r holl ymgeiswyr sydd wedi derbyn penderfyniad ar eu grant, a'r holl ddeiliaid grantiau.

Rydym hefyd yn pennu dangosyddion mewnol ar gyfer trin cwynion, asesiadau a dyfarniadau.

Targed blynyddol:

Cynnal ein gradd bodddhad cwsmeriaid o 90 y cant.

Amcan strategol 3: Effeithiolrwydd

Mae ein rhaglenni ariannu'n dod â gwir welliannau i fywydau ein buddiolwyr.

Dangosydd perfformiad allweddol: gellir graddio pob rhaglen ariannu'r Gronfa Loteri Fawr yn gadarnhaol yn gyffredinol o ran atebolrwydd, dysgu ac effaith (yn seiliedig ar adolygiad blynyddol mewnol a fydd yn dechrau blwyddyn ar ôl lansio).

Mae gwerthuso ac ymchwil yn rhoi cyfle i ni ddeall effaith ein hariannu ac yn ein helpu i wella ansawdd ac effeithiolrwydd ein rhaglenni. Mae'n bwysig i ni bod ein hariannu'n cyflawni newid helaeth, effeithiol a pharhaus yn unol â'n cenhadaeth. Eleni rydym yn buddsoddi mewn gwaith a fydd yn gwella sut rydym yn mesur hyn.

Byddwn yn parhau i dreulio amser ar ymchwil, a chynnal deialog gyda phobl sydd â diddordeb yn ein gwaith, arbenigwyr, y sawl sy'n llunio polisi a chwsmeriaid. Byddwn yn monitro ac yn gwerthuso ein rhaglenni cyfredol a rhai o'r gorffennol. Ar hyn o bryd mae tua 15 o werthusiadau a 12 prosiect ymchwil wedi'u rhoi ar waith. Wrth i ni lunio ein hariannu newydd, bydd Strategaeth Ymchwil a Dysgu 2009 i 2015 yn sicrhau ein bod yn casglu, yn cyfuno ac yn cyflwyno'r wybodaeth o'n rhaglenni o'r gorffennol ac ymchwil allanol er mwyn cyfeirio'r hyn yr ydym yn ei ariannu a phwy, a sut y byddwn yn cael y budd mwyaf o'r arian rydym yn ei roi. Cyhoeddir adroddiadau gwerthuso'n allanol a gellir dod o hyd iddynt ar ein gwefan yn: <http://www.cronfaloterifawr.org.uk/evaluationandresearch-wal>.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2010 roeddem yn rheoli 26,134 o grantiau ar draws y DU; mae rhai o'r grantiau hyn wedi'u lleoli o fewn rhaglenni y mae ceisiadau iddynt wedi dod i ben erbyn hyn. Maent bellach yng ngham cyflwyno'r prosiect ac yn tynnu arian i lawr o'u dyraniad grant. Pan fydd prosiectau wedi'u cwblhau, maent yn adrodd i ba raddau maent wedi cyflawni eu canlyniadau.

Eleni bydd ein rhaglen Arian i Bawb boblogaidd ar draws y DU yn parhau ar agor i ymgeiswyr, ac mae'r rhaglen Reaching Communities wedi'i hail-lansio yn Lloegr gyda chyllideb fwy ac arweiniad newydd. Fel arwydd o raddfa ein gweithrediadau, dyfarnwyd mwy na 8,000 o grantiau Arian i Bawb a 481 o grantiau Reaching Communities yn Lloegr yn 2009/10. At ei

gilydd dyfarnwyd dros 13,000 o ddyfarniadau yn ystod y flwyddyn.

Fel yr amlinellwyd o dan Amcan Strategol un, mae gan y Gronfa Loteri Fawr gyllideb grant o £390 miliwn ar gyfer 2010/11. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ni barhau i fuddsoddi mewn cyflawni'r canlyniadau a amlinellir yn y Farn Fawr dros yr hir dymor a gwireddu ein hymrwymiad, sef bod y SGCh yn derbyn o leiaf 80 y cant o'n hariannu rhwng nawr a 2015. Bydd portffolio cyfan y Farn Fawr ar gyfer 2010-2015 yn cynnig ariannu newydd i gefnogi prosiectau a fydd yn cyflawni'r canlyniadau hyn.

Byddwn yn darparu ein hariannu drwy bortffolio cymysg o raglenni ledled y DU. Bydd y portffolio'n cynnwys y canlynol:

1. Rhaglenni agored sy'n ymateb i anghenion cymunedau, y mae'r cymunedau wedi'u nodi eu hunain. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer grantiau bach y gellir eu hygyrchu'n hwylus drwy raglenni megis Arian i Bawb, ond hefyd ein rhaglenni blaenllaw: - Reaching Communities yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, Pawb a'i Le yng Nghymru ac Investing in Communities yn Yr Alban.

2. Rhaglenni sy'n cyfeirio arian i leoedd sydd fel arall o dan anfantais oherwydd prosesau cynnig. Byddant yn cynnwys Big local yn Lloegr ac Our Place yn Yr Alban. Mae'r cyfryw raglenni'n rhoi cyfle i ni dargedu ariannu ar rannau o'r DU y mae angen cefnogaeth ddwys arnynt ac ar yr un pryd, galluogi rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig i fynd i'r afael â'r materion sydd pwysicaf iddynt.

3. Ymyraethau wedi'u targedu a strategol sy'n canolbwyntio ar fater penodol neu ardal ddaearyddol lle mae ymchwil yn dweud wrthym y gallwn wneud gwahaniaeth. Rhoddir rhai engheiffitiau uchod.

a) Bydd Forces in Mind (Lloegr) yn ariannu prosiectau sy'n cefnogi lles seicolegol cyn-filwyr a'u teuluoedd ac yn eu helpu i drosglwyddo'n llwyddiannus i fywyd fel sifiliaid.

b) Bydd Youth in Focus (Lloegr) yn ariannu prosiectau sy'n cefnogi pobl ifanc i gyflawni bywydau annibynnol

ar ôl bod mewn gofal neu sefydliadau troseddu ieuencid, a hefyd prosiectau sy'n cefnogi gofalwyr ifanc drwy newidiadau sylweddol yn eu bywydau; a phrosiectau sy'n helpu pobl i gymryd rheolaeth ar eu harian.

c) Yng Nghymru bydd Llawn BYWYD yn ariannu prosiectau sy'n cefnogi pobl hŷn, a bydd ariannu wedi'i dargedu i gefnogi newid mewn cymunedau yng Nogledd Iwerddon.

ch) Mae Efelychu ac Arloesedd (Replication and Innovation) yn rhaglen wedi'i thargedu ar draws y DU sydd â'r nod o fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol sylfaenol sy'n effeithio ar fywydau unigolion a chymunedau. Trwy Efelychu ac Arloesedd, bydd y Gronfa Loteri Fawr yn comisiynu nifer bach o sefydliadau i efelychu neu gyflwyno fersiynau graddfa fwy o arfer a gwaith effeithiol iawn gydag eraill er mwyn hadu a deori ymagweddau addawol newydd. Bydd hefyd yn cefnogi'r SGCh drwy nifer o gyfleoedd ymchwil a dysgu.

Trwy gynnig y cyfryw gymysgedd ac amrywiaeth o ariannu, parhawn â strategaeth o fedru addasu, bod yn hyblyg ac yn ymatebol mewn ffordd sy'n hynod effeithiol o ran cyflawni effaith.

Yn ystod y flwyddyn byddwn yn croesawu'r cyfle i gyflwyno ariannu ar ran sefydliadau eraill os gellir defnyddio'r arian hwn i helpu cyflawni ein cenhadaeth a'n gwerthoedd.

Rydym eisoes yn rheoli nifer o raglenni i gleientiaid, gan gynnwys **myplace** ar ran yr Adran Addysg (yr Adran dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd gynt), yr oeddem wedi dyfarnu £272 miliwn i 70 o grantiau oddi tani, a Community Assets ar ran y Swyddfa Cymdeithas Sifil (Swyddfa'r Trydydd Sector gynt), yr oeddem wedi

dyfarnu hyd at £30 miliwn i 37 o grantiau oddi tani.

Mewn trefniad partneriaeth gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru rydym yn rhedeg rhaglen Sgiliau Bywyd (Cymru), a ariennir ar y cyd gan arian Loteri a Chronfa Gymdeithasol Ewrop. Eleni byddwn yn lansio rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol gwerth £13 miliwn a gaiff ei hariannu ar y cyd mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Rydym wedi cael ein henwebu fel y corff sy'n gyfrifol am ddsbarthu arian o gyfrifon banc a chymdeithas adeiladu cwsg i achosion da ledled y DU, a thros y flwyddyn nesaf byddwn yn parhau i weithio gydag adrannau perthnasol y Llywodraeth i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r hyn a ddisgwylir gennym a'r hyn y mae angen ei wneud i symud hwn ymlaen.

Byddwn yn mesur ein llwyddiant yn erbyn yr amcan strategol hwn drwy fonitro'r prosiectau rydym yn eu hariannu a thrwy gyflawni adolygiad blynyddol o bob rhaglen er mwyn ei mesur yn erbyn cyflwyno'r canlyniadau rydym wedi'u cyhoeddi ar ei chyfer. Ar y sail hon gallwn bennu ble mae'r rhaglen wedi gwneud gwahaniaeth a chipio dysg. Bydd yr adolygiadau hyn yn cynnwys elfen adolygu cymheiriaid ac yn tynnu ar yr ymchwil sydd ar gael, gan gynnwys canfyddiadau gwerthusiadau.

**Targed blynyddol:
pennu gwaelodlin ar sail data'r rhaglenni a adolygwyd
erbyn mis Mawrth 2011**


Risgiau ar gyfer 2010/11

Wynebwn nifer o risgiau i gyflwyno ein hamcanion strategol ac ymrwymiadau eraill. Nodir y pwysicaf o'r rhain yn ein cofrestr risgiau corfforaethol. Dros y flwyddyn i ddod, bydd ein cynlluniau i ail-lunio'r Gronfa Loteri Fawr o gwmpas systemau newydd a gwell profiad i gwsmeriaid yn peri newidiadau mawr i'n strwythur corfforaethol a'n prosesau busnes. Byddwn yn monitro ffactorau sy'n agored i risgiau o fewn y rhaglen newid hon yn ofalus.

Mae ein hymagwedd at nodi a rheoli risgiau wedi'i disgrifio yn ein Datganiad Polisi Rheoli Risgiau. Cyfrifoldeb yr Uwch Dîm Rheoli yw nodi a rheoli risgiau corfforaethol. Lle bo angen, byddwn yn archwilio'r mesurau a roddwyd ar waith i gyfyngu ar risgiau rydym yn eu hwynebu, neu eu lleihau. Ystyrir y meysydd y gallai fod angen i ni eu hystyried yn ein cynllun archwilio ar gyfer 2010/11. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau'n derbyn adroddiadau rheolaidd ar ein canfyddiadau rheoli risgiau ac archwilio yn ystod y flwyddyn.

ATODIAD A

Siart o'r drefniadaeth



ATODIAD B

Aelodau Bwrdd a phwyllgor



Syr Clive Booth

Cadeirydd
Cadeirydd, Pwyllgor Tâl
Cydnabyddiaeth



Judith Donovan CBE

Aelod Cyffredinol
Cadeirydd, Pwyllgor Adnoddau



Anna Southall

Is-gadeirydd



Roland Doven MBE

Aelod Cyffredinol
Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio a
Risgiau



Sanjay Dighe

Cadeirydd, Pwyllgor Lloegr



John Gartside OBE

Aelod Cyffredinol
Aelod, Pwyllgor Lloegr



Frank Hewitt

Cadeirydd, Pwyllgor Gogledd
Iwerddon



Rajay Naik

Aelod Cyffredinol



Alison Magee

Cadeirydd, Pwyllgor Yr Alban



Albert Tucker

Aelod Cyffredinol
Aelod, Pwyllgor Lloegr



Huw Vaughan Thomas

Cadeirydd, Pwyllgor Cymru



Diana Whitworth

Aelod Cyffredinol

ATODIAD B

Aelodau Bwrdd a phwyllgor

Pwyllgorau Gwlad

Pwyllgor Lloegr - Sanjay Dighe (Cadeirydd)

Yr aelodau yw Alan Billings, Sue Charteris, John Gartside, Margaret Hyde, Daniel Silverstone, Albert Tucker, Nalini Varma a Geoffrey Wilkinson.

Pwyllgor Gogledd Iwerddon –Frank Hewitt (Cadeirydd)

Yr aelodau yw Geraldine Campbell, Paul Cavanagh, Julie Harrison, Claire Keatinge a Peter Osborne.

Pwyllgor Yr Alban - Alison Magee (Cadeirydd)

Yr aelodau yw Tim Allan, Elizabeth Cameron, Helen Forsyth, David Green, Alistair Grimes, Kristofer McGhee, Maureen McGinn, Lucy McTernan a Shirley Young.

Pwyllgor Cymru - Huw Vaughan Thomas (Cadeirydd)

Yr aelodau yw Graham Benfield, Gareth Newton, Janet Reed, Fran Targett, Mike Theodoulou a Barbara Wilding.